



Amodau Trwyddedu Hurio Preifat

(Gweithredwyr a Cherbydau)

Gwasanaethau Trwyddedu
Swyddfeydd Dinesig
BAE COLWYN
LL29 8AR

Ffôn/Tel: 01492-576626
Ffacs/Fax:01492574036

Licensing Services
Civic Offices
COLWYN BAY
LL29 8AR

Ffôn/Tel: 01492-576626
Ffacs/Fax:01492574036

Amodau Trwyddedu Hurio preifat

Mae'n ddyletswydd statudol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych i weinyddu a gorfodi deddfwriaeth yn ymwneud â thrwyddedu:

- Cerbydau hacni
- Gyrwyr cerbydau hacni
- Cerbydau hurio preifat
- Gyrwyr cerbydau hurio preifat
- Gweithredwyr cerbydau hurio preifat

Y ddeddfwriaeth berthnasol yw Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847.

Amodau a fabwysiadwyd gan:
Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 09/03/2009
Diwygiwyd 23/01/2012

Gyngor Sir Ddinbych ar 10/03/2009

uned.drwyddedu@conwy.gov.uk

licensing@denbighshire.gov.uk

Diffiniadau:

Ystyr "Y Ddeddf" yw Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Mae i "Swyddog awdurdodedig" yr un ystyr ag yn adran 80 o'r Ddeddf.

Ystyr "Y Cyngor" yw cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Sir Ddinbych.

Mae i "Y perchennog" yr un ystyr ag yn adran 80 o'r Ddeddf.

Ystyr "Y Gweithredwr" yw rhywun sydd â thrwydded i weithredu cerbydau hurio preifat a roddwyd yn unol ag adran 55 o'r Ddeddf.

Mae i "Y cloc tacs" yr un ystyr ag yn adran 80 o'r Ddeddf.

Mae i "cerbyd hurio preifat" yr un ystyr ag yn adran 80 o'r Ddeddf .

Mae i "Cerbyd Hacni" yr un ystyr ag yn Neddf Cymalau Heddlu Tref 1847.

Gweithredwyr Cerbyd Hurio preifat

Rhaid i'r gweithredwr gydymffurfio â holl ddarpariaeth y Ddeddf sydd mewn grym ar hyn o bryd sy'n ymwneud â gweithredu cerbydau hurio preifat.

COFNODION

- 1.1 Y cofnodion sy'n ofynnol i'r Gweithredwr eu cadw o dan adran 56(2) y Ddeddf fydd:
- i Os cedwir â llaw, mewn llyfr addas, â'r tudalennau wedi eu rhifo'n olynol; neu
 - ii Os cedwir hwy ar gyfrifiadur, rhaid cadw allbrint dyddiol neu gopi electronig wrth gefn ar wahân.
- 1.2 Bydd y Gweithredwr yn cofnodi neu'n achosi i gael eu cofnodi, cyn dechrau pob taith, y manylion canlynol am bob archeb cerbyd hurio preifat a wahoddwyd neu a dderbyniwyd ganddo, p'un ai a ddarparwyd y cerbyd hurio preifat gan y Gweithredwr ai peidio,
- a) Dyddiad ac amser yr archeb.
 - b) Enw'r sawl sy'n llogi (unigolyn, cwmni neu sefydliad).
 - c) Sut yr archebwyd (ffôn, galwr personol, testun, e-bost).
 - d) Amser a phwynt codi'r teithiwr/wyr.
 - e) Pen y daith.
 - f) Rhif plât trwydded y cerbyd a ddynodwyd ar gyfer yr archeb.
 - g) Rhif plât trwydded y cerbyd ac enw'r gyrrwr a ddynodwyd ar gyfer yr archeb.

h) Sylwadau, yn cynnwys manylion unrhyw is-gontract os yw'n briodol.

- 1.3 Rhaid i bob cofnod gael ei gadw gan y Gweithredwr am ddim llai na 6 mis.
- 1.4 Bydd y gweithredwr yn cadw copïau o holl drwyddedau cerbydau hurio preifat a roddwyd gan y Cyngor, sy'n weithredol o dan drwydded y Gweithredwr.
- 1.5 Rhaid i'r Gweithredwr gadw copi o'r drwydded i yrru cerbydau hurio preifat ar gyfer pob gyrrwr a gyflogir, a chadw'r rhain nes bod y gyrrwr yn rhoi'r gorau i'w gyflogaeth, ac ar yr adeg honno rhaid rhoi'r copi yn ôl i'r gyrrwr.
- 1.6 Rhaid i'r holl gofnodion fod ar gael i'w harchwilio os bydd swyddog awdurdodedig neu'r heddlu'n gofyn amdanynt.

EUOGFARNAU

- 1.7 Bydd y Gweithredwr, o fewn 7 diwrnod, yn datgelu i'r Cyngor, yn ysgrifenedig, fanylion unrhyw euogfarn a osodwyd arno (neu os mai cwmni neu bartneriaeth yw'r gweithredwr, ar unrhyw un o'r cyfarwyddwyr neu bartneriaid) yn ystod cyfnod y drwydded hon.

NEWID CYFEIRIAD

- 1.8 Bydd y Gweithredwr, o fewn 7 diwrnod, yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o unrhyw newid cyfeiriad personol.
- 1.9 Bydd y Gweithredwr yn hysbysu'r Cyngor, yn ysgrifenedig, o unrhyw newidiadau a gynllunnir i leoliad y ganolfan weithredu o leiaf 21 diwrnod cyn i unrhyw newid digwydd.

CYNLLUNIO A CHANIATÂD ARALL

- 1.10 Ni roddir trwydded Gweithredwr hyd nes bod:

- 1) Unrhyw ganiatâd cynllunio, cydsyniadau angenrheidiol neu debyg wedi eu sicrhau gan y Cyngor a thystiolaeth ohonynt wedi ei chyflwyno i Bennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio.
- 2) Unrhyw drwydded angenrheidiol o safbwynt offer radio wedi ei rhoi gan yr Asiantaeth Cyfathrebiadau Radio.
- 3) Pennwyd bod cofnodion troseddol a ddatgelwyd yn foddhaol.

GWASANAETH

- 1.11 Bydd y Gweithredwr yn darparu gwasanaeth prydlon, effeithlon a dibynadwy i'r cyhoedd ar bob amser rhesymol ac i'r pwrpas hwn bydd yn sicrhau, yn arbennig, pan fo cerbyd hurio preifat wedi ei logi ei fod yn bresennol ar amser ac mewn lleoliad penodol, bydd y cerbydau, oni bai bod achos digonol wedi eu hatal neu beri oedi, yn bresennol ar amser ac yn y lleoliad penodol hwnnw.

EIDDO GWEITHREDU

- 1.12 Bydd y Gweithredwr yn cadw unrhyw eiddo a ddarperir ar gyfer y cyhoedd, neu y mae gan y cyhoedd fynediad atynt, p'un ai i bwrpas archebu neu aros, yn lân, wedi eu hawyru a'u goleuo'n ddigonol. Rhaid i'r gweithredwr sicrhau bod cyfleusterau eistedd digonol mewn unrhyw fan aros.
- 1.13 Rhaid i'r Gweithredwr sicrhau y gwaherddir defnyddio unrhyw offer radio CB neu sianel agored debyg ar gyfer cysylltu â neu rhwng gyrwyr cerbydau a weithredir ganddo.

CWYNION

- 1.14 Rhaid i'r Gweithredwr hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bydd yn derbyn unrhyw gwynion a wnaed yn uniongyrchol iddo efo ynglŷn â chontract llogi neu gontract llogi honedig yn ymwneud

â'i fusnes neu'n deillio ohono a'r cam a gymerwyd neu y bwriedir ei gymryd, os o gwbl, gan y Gweithredwr, neu yn achos cwynion a wnaed yn uniongyrchol i'r Cyngor ymateb iddynt gyda hysbysiad tebyg o fewn 7 diwrnod o dderbyn rhybudd o'r gŵyn.

PRISIAU

- 1.15 Bydd y gweithredwr yn sicrhau bod copi o'r raddfa bresennol o brisiau a godir ganddo yn cael ei dangos ym mhob cerbyd trwyddedig a weithredir ganddo, mewn lle y gall y teithwyr sydd yn y cerbyd ei darllen yn glir.
- 1.16 Bydd y gweithredwr yn sicrhau bod y raddfa brisiau yn 1.15 uchod yn cael ei rhoi i'r Cyngor cyn gynted ag y mae'n dod i rym.

Cerbydau Hurio preifat

Bydd y perchennog bob amser yn cydymffurfio â darpariaethau Rhan II o'r Ddeddf a'r amodau a ddarperir yma.

ARCHWILIO CERBYD

- 2.1 Yn amodol ar (a) i (m) isod, bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw gar stad is ganolig 4 a 5 drws S.M.M.T., neu gar salŵn neu stad uwch ganolig/mawr, MPV, SUV, bws mini neu debyg, o gyflwr mecanyddol a chorfforol addas, waeth beth fo'i liw, ar gyfer trwyddedu hurio preifat. Ni fydd yn caniatáu defnyddio Cabiau Llundain a ddyluniwyd yn bwrpasol, cerbydau tacsï perchnogol eraill a adeiladwyd yn bwrpasol nac unrhyw gerbyd a allai arwain y cyhoedd i gymryd mai cerbyd hacni ydyw.
- a. Rhaid i gerbydau gael o leiaf 4 drws a 4 olwyn oni bai eu bod yn cael eu heithrio'n benodol gan y Cyngor (mae'r drws cefn yn cael ei gynnwys fel un drws).

- b. Rhaid i gerbydau fod yn rhai a yrrir ar yr ochr dde oni bai eu bod yn cael eu heithrio'n benodol gan y Cyngor.
- c. Rhaid i gerbydau fod â lle digonol i gadw bagiau'n lân, diogel a sych.
- d. Ni ddylai cerbydau fod â rhesel ben to.
- e. Ni ddylai cerbydau fod ag arwyddion ar y to nac unrhyw arwydd a allai roi'r argraff eu bod o bosibl yn gerbyd hacni (tacsî).
- f. Cerbydau sy'n gallu cludo o leiaf 4 a dim mwy na 8 o deithwyr, yn ychwanegol at y gyrrwr.
- g. Rhaid i bob cerbyd fod o dan bump oed o'r dyddiad y cofrestrwyd hwy gyntaf, ac ar drwydded ddilynol fod mewn cyflwr mecanyddol a chorfforol arbennig o dda, y tu mewn a'r tu allan.
- h. Bydd addasrwydd cerbydau i gael eu trwyddedu fel cerbydau hurio preifat yn cael ei bennu gan y Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio. Ar sail achosion unigol, bydd cerbydau MPV mawr yn cael eu trwyddedu heb addasu ar gyfer y nifer o seddi a nodir ar ddogfen V5. Er hynny, bydd cerbydau MPV bach ond yn cael eu trwyddedu i gludo uchafswm o bedwar teithiwr
- i. Ni ddylai cerbydau fod wedi eu cofrestru'n "Q".
- j. Rhaid i geisiadau ar gyfer cerbydau sydd wedi eu haddasu ers eu cynhyrchu gyntaf, neu eu mewnfario o dramor, gael tystysgrif defnydd gan Asiantaeth Ardystio Cerbydau i ddangos eu bod yn addas i gludo teithwyr.
- k. Ni ddylai unrhyw gerbyd trwyddedig dynnu trelar oni bai bod tystysgrif yswiriant dilys neu

nodyn diogelu ar gael i ddiogelu ei ddefnydd ar gyfer llogi a thâl ariannol. Rhaid i rif trwydded y cerbyd gael ei ddangos yn glir ar gefn y trelar; rhaid i unrhyw drelar gydymffurfio â'r holl amodau perthnasol.

l. Rhaid i holl seddi'r teithwyr wynebu ymlaen neu yn ôl i gyfeiriad y teithio, (ni ddylai unrhyw deithiwr eistedd wysg ei ochr i gyfeiriad y teithio oni bai bod hynny wedi ei eithrio'n benodol gan swyddog awdurdodedig y cyngor).

m. Rhaid i unrhyw ddefnydd o gamera cylch caeedig (TCC) i gofnodi tu mewn unrhyw gerbyd trwyddedig gael ei gymeradwyo gan y cyngor a gweithredu yn y fath fodd fel bod unrhyw wybodaeth a gesglir yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Rhaid i arwydd a gymeradwyir gan y cyngor gael ei ddangos yn y cerbyd i hysbysu teithwyr fod system yn cael ei defnyddio.

2.2 Bydd y cerbyd a'i holl ffitiadau a'i offer, bob amser, pan fo'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio neu ar gael i'w logi, mewn cyflwr effeithlon, diogel, taclus a glân ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol.

2.3 Ni wneir unrhyw addasiad neu newid sylweddol i fanyleb, dyluniad, cyflwr neu edrychiad y cerbyd heb gymeradwyaeth y Cyngor ar unrhyw adeg pan fo'r drwydded mewn grym.

2.4 Bydd y plât trwydded a'r arwyddion drws sy'n dynodi'r cerbyd yn gerbyd hurio preifat, yn cael eu dangos ar y cerbyd bob amser pan fo'r cerbyd yn drwyddedig fel cerbyd hurio preifat (ac eithrio'r adegau a gynhwysir yn Adran 75 o'r Ddeddf).

2.5 Bydd y plât trwyddedu allanol wedi ei osod yn gadarn i du allan y cerbyd yn y cefn, ar neu uwchben uchder y bymper ac mor llorweddol â phosibl, ond wedi ei osod serch hynny yn y fath fodd fel y gall swyddog awdurdodedig o'r Cyngor neu heddlu ei dynnu i ffwrdd.

2.6 Bydd un arwydd drws wedi ei osod ar dop bob panel drws ffyrnt i'r

cerbyd.

- 2.7 Gall enw'r cwmni, y geiriau hurio preifat ac un rhif ffôn, y mae'n rhaid i Weithredwr y cerbyd eu defnyddio, gael eu gosod, ar gost y daliwr trwydded, ar y cist a'r naill ochr a'r llall o gefn y cerbyd yn is nag uchder y ffenestr ar yr amod:
- i) Mai'r enw cyntaf yw'r un a ddefnyddir gan y gweithredwr ac a gofnodir gan y Cyngor.
 - ii) Ni fydd y Cyngor yn caniatáu lluniau, eiconau, graffeg, arwyddluniau neu debyg a allai roi'r argraff fod y cerbyd yn gerbyd hacni (taksi).
- 2.8 Ni ddylai cerbydau ddangos, yn unrhyw le ar y cerbyd nac ynddo, y gair "taksi" "cab" neu "i'w logi" nac unrhyw air/eiriau eraill a allai, ym marn y Cyngor arwain y cyhoedd i gredu bod y cerbyd yn gerbyd hacni.
- 2.9 Ni ddylai'r plât trwydded a'r arwyddion drws gael eu gosod ar unrhyw gerbyd arall heblaw'r un a nodir ar y drwydded bresennol. Mae'r offer hwn yn parhau'n eiddo i'r Cyngor a rhaid ei ildio'n syth pan ddaw i ben, pan gaiff ei wahardd neu pan gaiff y drwydded ei thynnu'n ôl.
- 2.10 Bydd pob cerbyd trwyddedig wedi ei ddodrefnu, ffitio a'i gynnal yn ddigonol o safbwynt cyfforddusrwydd a diogelwch teithwyr a heb ragfarnu cyffredinolrwydd yr uchod, yn darparu'r canlynol:
- i) Dull cyfathrebu digonol rhwng teithiwyr yn y cerbyd a'r gyrrwr, os oes lle ar wahân yn y cerbyd i deithwyr.
 - ii) Gorchudd to sy'n dal dŵr.
 - iii) Bod modd agor a chau'n hwylus o leiaf un ffenestr ar bob ochr i seddi/fan eistedd y teithwyr.
 - iv) Seddi glân gyda chlustogau priodol i nifer y teithwyr a nodir yn nhrwydded y cerbyd.

- v) Carped neu ddefnydd priodol ar y llawr.
- vi) Rhaid i ddiffoddwr tân digonol powdwr sych, (0.8 – 1.5kg) wedi ei ardystio a'i brofi, fod wedi ei osod o'r golwg gyda rhybudd clir addas i'w weld yn y cerbyd i ddangos ei leoliad mewn achos o argyfwng.
- viii) Pecyn cymorth cyntaf i'w osod o'r golwg gyda rhybudd clir addas i'w weld y tu mewn i'r cerbyd yn dangos ei leoliad mewn achos o argyfwng (nid yw'n ddyletswydd ar yrwyr hurio preifat (a hacni) roi triniaeth cymorth cyntaf), nid oes rhestr safonol o eitemau i'w rhoi mewn bocs cymorth cyntaf, mae hyn yn dibynnu ar yr hyn y tybiwch sydd ei angen, ond fel canllaw ac os nad oes risg arbennig dylai'r eitemau cymorth cyntaf gynnwys o leiaf:
 - Taflen arweiniol ar gymorth cyntaf
 - Un pâr o fenig tafladwy
 - 20 gorchudd adlynol diheintiedig wedi eu lapio'n unigol (dewis o feintiau)
 - Dau bad llygaid diheintiedig
 - Pedwar rhwymyn trionglog wedi eu lapio'n unigol (diheintiedig os yw'n bosibl)
 - Chwech o binnau cau
 - Chwech gorchudd o faint canolig (12cm x 12cm) anfeddyginiaethol
 - Dau orchudd anfeddyginiaethol mawr (18cm x 18cm)Ni ddylid cynnwys unrhyw dabledi neu foddion yn y Bocs Cymorth Cyntaf

RHAID RHOI EITEM NEWYDD YN LLE'R RHAU A DDEFNYDDIR YN SYTH.

Rhaid storio pob eitem mewn bocs a gymeradwyir a'u cadw mewn cyflwr da bob amser.

- 2.11 Dylai'r holl gerbydau gael eu ffitio â gwregysau diogelwch i deithwyr ac unrhyw nodweddion eraill, a'u cynnal, fel sy'n ofynnol o dan unrhyw Ddeddf neu Reoliad a allai fod mewn grym o bryd i'w gilydd.
- 2.12 Ni fydd unrhyw hysbysiadau o unrhyw fath, platiau, marciau, rhifau,

llythrennau, ffigyrau, symbolau, arwyddluniau neu ddyfeisiau o fath yn y byd yn cael eu dangos ar, yn neu o'r cerbyd ac eithrio fel y bo angen gan unrhyw ddarpariaethau statudol, gan gynnwys deddfau neu amodau. Dylid nodi y gellir dangos hysbysebion ar gerbyd trwyddedig, ond rhaid iddynt gydymffurfio â'r amodau perthnasol a'u dangos yn unig ar ôl i'r Cyngor eu hawdurdodi.

2.13 Ni fydd 2.12 yn berthnasol i:

- a) Unrhyw arwydd ar gloc tacsï sydd i'w weld o du mewn y cerbyd yn unig, neu
- b) Cerdyn a ddangosir gan y gyrrwr sy'n cael ei ddal â llaw ac sy'n cael ei ddangos yn, ar neu o'r cerbyd tra bo'r cerbyd yn llonydd, ar yr amod nad yw'r cyfryw gerdyn yn;
 - i) Cynnwys unrhyw eiriau neu rifau heblaw am enwau gweithredwr trwyddedig y cerbyd neu'r enw y mae'n ei ddefnyddio ar gyfer ei fusnes ac, yn y naill achos a'r llall, enw'r teithiwr neu'r teithwyr i'w cludo yn y cerbyd, ac
 - ii) Os yw'r gweithredwr trwyddedig yn codi tâl am deithiau yn unol â'r raddfa brisiau (fel yn amodau PHVO), bydd copi o'r raddfa honno'n cael ei dangos yn y cerbyd er gwybodaeth i'r teithwyr ar ffurf a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd yn flaenrol gan y Cyngor.

2.14 Ni fydd naill ai'r Gweithredwr, perchennog na gyrrwr cerbyd hurio preifat yn defnyddio neu'n achosi i gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gerbyd unrhyw offer radio ar gyfer cyfathrebu gweithredol rhwng y Gweithredwr a'r Gyrrwr, neu rhwng Gyrrwyr cerbydau hurio preifat eraill, sydd heb fod yn offer sianel gaeedig sydd wedi ei drwyddedu'n llawn.

2.15 Gwaherddir Radio CB, offer sganio amledd radio neu offer radio sianel agored tebyg arall ar gyfer cyfathrebu gweithredol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwahardd defnydd personol o offer radio CB ar yr amod nad yw'n cael ei ddefnyddio wrth gludo teithwyr ac nad yw'n tarfu ar ddefnyddwyr offer radio tebyg sydd â thrwydded lawn i'w ddefnyddio.

- 2.16 Bydd y daliwr trwydded yn hysbysu'r Cyngor, yn ysgrifenedig, o unrhyw newid i'w gyfeiriad personol yn ystod cyfnod y drwydded, o fewn 7 diwrnod i'r newid hwnnw.
- 2.17 Bydd y daliwr trwydded o fewn 7 diwrnod yn datgelu i'r Cyngor yn ysgrifenedig fanylion unrhyw euogfarn (troseddol/gyrru) a gofnodwyd yn erbyn y gyrrwr yn ystod cyfnod y drwydded.
- 2.18 Bydd yn ofynnol i bob cerbyd gael prawf cydymffurfio ac allyriadau bob 6 mis mewn gorsaf brofi a enwebir gan y Cyngor (i gynnwys prawf os bydd angen ar unrhyw lifftiau neu rampiau mecanyddol, niwmatig, neu hydrologig ac unrhyw offer angenrheidiol arall i fynd i mewn i'r cerbyd).
- 2.19 Ar ddyddiad terfyn prawf cydymffurfio 6 misol bydd pob cerbyd hŷn na 5 oed ers y dyddiad cofrestru cyntaf yn cael eu harchwilio, yn ystod unrhyw brawf cydymffurfio dilynol, gan Orsaf Brofi Awdurdodedig y Cyngor i sicrhau bod eu cyflwr mewnol ac allanol yn rhagorol
- 2.20 Bydd y daliwr trwydded yn adrodd i'r Swyddog Trwyddedu yn ysgrifenedig cyn gynted ag y mae'n ymarferol bosibl ac mewn unrhyw achos o fewn 72 awr o'r digwyddiad, o unrhyw ddamwain i'r cerbyd sy'n achosi niwed sylweddol i ddiogelwch, perfformiad neu edrychiad y cerbyd neu i gyfforddusrwydd neu hwylustod y teithiwr a gludir ynddo.
- 2.21 Bydd trwydded y cerbyd hurio preifat yn cael ei hatal os, ar ôl adrodd fel yn 2.20 uchod, bod y Cyngor o'r farn bod y cerbyd yn torri unrhyw amod sy'n ofynnol gan y drwydded neu sy'n galw am ail-brofi. Bydd y perchennog yn trefnu bod y cerbyd yn cael prawf mewn gorsaf brofi enwebedig ac yn cyflwyno'r dystysgrif cydymffurfio i'w harchwilio cyn i'r drwydded gael ei hailsefydlu.
- 2.22 Gall y Cyngor hawlio bod y platiau trwydded yn cael eu dychwelyd yn syth.
- 2.23 Os oes cloc tacsï yn y cerbyd hurio preifat, bydd y cloc hwnnw'n cydymffurfio ac yn cael ei ddefnyddio'n unig yn unol â'r canlynol:
- a) Ni ddangosir unrhyw arwydd neu faner p'un ai a yw wedi ei oleuo ai peidio, ar y cloc tacsï nac unman

arall, y gellir ei weld o'r tu allan i'r cerbyd, sy'n cynnwys y geiriau "i'w logi" nac unrhyw eiriau neu awgrym arall bod y cerbyd yn gerbyd hacni ar gael i'w logi'n syth

- b) Bydd swîts neu ddyfais arall wedi ei ffitio ar y cloc tacsï sy'n ei weithio fel ei fod yn dangos y tâl priodol sy'n achosi i'r gair "WEDI'I LOGI" neu "PRIS" ymddangos ar wyneb y cloc.
- c) Bydd modd cloi'r cyfryw swîts neu ddyfais arall mewn ffordd fel nad yw peirianwaith y cloc yn weithredol ac nad yw pris yn cael ei gofnodi ar wyneb y cloc
- d) Pan fo peirianwaith y cloc yn weithredol, bydd ffigyrau'n cael eu cofnodi'n glir a diamwys ar wyneb y cloc tacsï, y pris ddim uwch na'r raddfa y mae gweithredwr y cerbyd wedi'i hysbysu i'r Cyngor
- e) Bydd y cloc tacsï wedi ei adeiladu yn y fath fodd fel ei fod yn gallu cofrestru prisiau gwahanol, os yw'r Gweithredwr wedi hysbysu cynnydd mewn prisiau ar gyfer archebion hwyr y nos neu archebion eraill
- f) Bydd y gair "pris" yn cael ei argraffu ar wyneb y cloc tacsï mewn llythrennau clir fel y bo'n berthnasol i'r pris a gofnodir arno
- g) Bydd y cloc tacsï'n cael ei osod yn y fath fodd fel bod yr holl llythrennau a'r ffigyrau ar yr wyneb yn glir i'w gweld bob amser i unrhyw un a gludir yn y cerbyd ac i'r pwrpas hwnnw bydd y llythrennau a'r ffigyrau'n gallu cael eu goleuo'n addas yn ystod unrhyw gyfnod llogi
- h) Bydd y cloc tacsï a'r holl ffitiadau wedi eu gosod yn y cerbyd gyda sêl neu declynnau eraill fel na fydd yn ymarferol i unrhyw un ymyrryd â hwy heb eu torri, difrodi neu dynnu ymaith yn barhaol y sêl neu declynnau eraill

2.24 Mae'r drwydded cerbyd logi preifat yn parhau i fod wedi ei thrwyddedu i'r unigolyn/unigolion a nodir ar y drwydded. Ni ellir is-

osod y drwydded na'i llogi i unrhyw unigolyn/unigolion eraill heb iddi gael ei throsglwyddo'n briodol gan y Cyngor.

- 2.25 Bydd y daliwr trwydded yn sicrhau bod yr yswiriant cerbyd a adnewyddwyd a'r dystysgrif cydymffurfio'n cael eu cyflwyno i'r Swyddog Trwyddedu, yn ei ffurf wreiddiol, naill ai cyn neu pan ddeuant i ben.
- 2.26 Os na ddarperir y cyfryw ddogfennau bydd y drwydded/trwyddedau'n cael eu hatal yn syth.
- 2.27 Ni ddylai dalwyr trwydded a gyrwyr cerbydau hurio preifat wrthod, heb esgus rhesymol gludo Ci Cymorth, Ci Tywys neu Gi Clywed sydd yn gwmni i'r sawl sy'n llogi'r cerbyd neu unrhyw deithiwr arall. Rhaid cludo cŵn ar lawr y cerbyd. Bernir mai esgus rhesymol yw unrhyw reswm meddygol, sy'n gysylltiedig â'r gyrrwr trwyddedig, fyddai'n gwaethygu yn sgil presenoldeb ci.
- 2.28 Amodau ychwanegol ar gyfer trwyddedu mathau penodol o gerbydau (limwsinau, cerbyd tân, cerbydau arbenigol). Mewn cerbydau o 8 neu lai o deithwyr rhaid rhoi sylw dyledus i Reoliad 46 a 47 Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) SI 1986 /1078 a Deddf Traffig Ffyrdd 1988;
- a) Rhaid i'r cerbyd basio archwiliad cymeradwyo cerbyd sengl o safbwynt y modd y'i dyluniwyd ac y'i hadeiladwyd mewn gorsaf brawf VOSA. Rhaid i'r dystysgrif cymeradwyo neu gydymffurfio gael ei chyflwyno gyda'r dystysgrif cofrestru (V5c) i'r adran drwyddedu.
 - b) Ni chaiff unrhyw un sy'n ymwneud â gweithredu'r cerbyd wisgo gwisg ffurfiol a allai arwain y teithwyr neu'r cyhoedd i gredu eu bod yn aelod o unrhyw wasanaethau brys.
 - c) Rhaid i'r gyrrwr ddal trwydded yrru briodol i yrru'r cerbyd.
 - d) Ni ddylai'r goleuadau, seirenau ac unrhyw offer ategol arall roi'r argraff bod y cerbyd yn gerbyd

gwasanaethau brys.

- e) Ni ddylai unrhyw unigolyn dan 15 oed eistedd ar sedd sy'n wynebu'r ochr.
- f) Rhaid i'r holl deiars gydymffurfio ag argymhellion gweithgynhyrchwyr cerbydau.
- g) Rhaid i bob cerbyd basio prawf cydymffurfio penodol a gynhelir yng ngorsaf brawf y Cyngor.
- h) Rhaid i werthiant unrhyw ddiodydd alcoholig yn y cerbyd gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol.
- i) Rhaid i'r holl adloniant yn y cerbyd gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a derbyn caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor.
- j) Rhaid i'r gweithredwr roi cymorth corfforol i sicrhau diogelwch teithwyr wrth fynd i mewn ac allan o'r cerbyd.
- k) Rhaid dangos yn glir ar lenyddiaeth hyrwyddo a nodi ar adeg archebu unrhyw gyfyngiad o ran mynediad i grwpiau penodol o deithwyr.
- l) Gallai amodau arbennig eraill hefyd fod yn berthnasol pan fo angen.